# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Brynderwen Catre**

**Rhydaman**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Brynderwen Catre

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Catre Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 2 Mai 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Brynderwen yn ymdrechu i gefnogi pobl fel y dymunant gael eu cefnogi. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn monitro pob agwedd ar ofal a chymorth dyddiol y bobl, er y bydd angen gwneud newidiadau i wella effeithiolrwydd y trefniadau goruchwylio hyn. Y rheswm dros hyn yw bod methiannau gyda'r trefniadau rheoli meddyginiaeth presennol a pheryglon posibl yn yr amgylchedd. Ond mae'r bobl yn y cartref yn dweud eu bod yn hapus. Mae'r uwch-aelodau o'r staff yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol lle y bo'n briodol. Mae'r gweithwyr gofal am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl. Mae pob gweithiwr yn cwblhau hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl ac yn dweud fod hynny'n ei helpu i gefnogi'r bobl yn briodol.

## Llesiant

Ar y cyfan, mae'r bobl yn Brynderwen mor annibynnol ag y dymunant ac mae ganddynt gymaint o reolaeth dros eu bywydau â phosibl. Mae pob person yn gwybod ac yn deall pa gefnogaeth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant y bobl ac yn gofyn yn rheolaidd am eu barn a'u hadborth ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn yn ddyddiol. Mae'r cynlluniau personol yn disgrifio'r holl ofynion cymorth ac mae yna broffiliau un dudalen sy'n disgrifio pob person yn glir ac mae gan y bobl fynediad at wasanaethau eirioli lle maent eisiau cymorth annibynnol ar faterion sy'n effeithio arnynt.

Mae'r bobl yn gartrefol, yn gwneud y pethau sy'n eu gwneud yn hapus ac maent mor brysur ag y dymunant fod. Caiff y bobl eu hannog gan y gweithwyr gofal i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Mae gan y cartref amrywiaeth o ardaloedd cymunedol i'r bobl gyfarfod â ffrindiau neu aelodau o'u teuluoedd, neu i fod ar eu pen eu hunain os dymunant. Mae'r bobl hefyd yn mynd allan i siopa, yn gwirfoddoli mewn siopau lleol, yn mynd i nofio ac yn mynd i'r sinema.

Caiff llais pob person ei glywed a gwrandewir arno. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl maent yn rhoi cymorth iddynt, yn gweithio gyda'r bobl i sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol i bobl, heb fod angen iddynt ofyn am hynny. Er nad oes unrhyw un sy'n siarad Cymraeg yn y cartref ar hyn o bryd, mae rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg ac mae arwyddion dwyieithog o gwmpas y safle. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt: mae'r bobl yn dweud eu bod yn hyderus y byddai'r rheolwr yn gwrando arnynt pe byddent yn gwneud cwyn. Fodd bynnag, mae iechyd a llesiant y bobl yn wynebu risg oherwydd y peryglon posibl yn yr amgylchedd, ynghyd â'r trefniadau rheoli meddyginiaeth yn y cartref.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau gofal yn disgrifio anghenion cymorth pob unigolyn yn fanwl. Mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion y bobl cyn eu derbyn i'r cartref. Mae hyn yn cynnwys asesiadau gofalus o gydnawsedd unigolion ag eraill sydd yn y cartref ar y pryd, ynghyd â chael gwybodaeth gan berthnasau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol allanol fel gweithwyr cymdeithasol. Mae asesiadau risg yn helpu i sicrhau bod y bobl yn cadw eu hannibyniaeth gymaint â phosibl. O hyn, bydd uwch-aelodau o'r staff yn datblygu cofnodion gofal i ddisgrifio trefniadau a gofynion cymorth y bobl. Mae'r tîm o staff yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal ac mae'r rheolwr yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo'n briodol. Mae hefyd yn amlwg y gall y bobl ddilyn eu harferion dyddiol eu hunain fel y dymunant ac maent yn hapus gyda'r ffordd y mae'r tîm o staff yn eu cefnogi.

Mae'r gweithwyr gofal yn trin y bobl â pharch. Pan fydd y bobl yn dod i'r cartref am y tro cyntaf, byddant yn cael canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'ndisgrifio'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan y cartref, yn ogystal â manylion y broses gwyno pe bai angen iddynt ei defnyddio. Mae'r gweithwyr gofal yn cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf yn rheolaidd ac maent yn ymwybodol o'r arferion gorau cyfredol.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel. Fodd bynnag, nid yw meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel yn y cartref. Dywedwyd wrthym y caiff meddyginiaethau eu rhannu a bod gweithwyr heb gael hyfforddiant yn trin meddyginiaeth. Mae gennym hefyd bryderon am sut y caiff meddyginiaethau eu storio drwy'r safle. Mae'n bosibl y bydd hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater.

Mae polisïau a gweithdrefnau manwl gan y darparwr i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith ym mhob rhan o'r cartref a gall y gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau lle bo angen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn y cartref, ond mae'n bosibl nad yw'r amgylchedd yn ddiogel. Er enghraifft, mae yna ddeunyddiau adeiladu wedi'u gwasgaru o amgylch yr ardd, gan gynnwys ysgolion a photiau paent enfawr. At hynny, gofynnir i'r bobl ysmygu mewn gardd wyllt ger y cartref sy'n berchen i'r darparwr, ond mae'r ardal hon wedi achosi anaf i'r bobl sy'n ei defnyddio oherwydd y peryglon ar y tir. Rydym wedi gweld tystiolaeth o fadarch yn tyfu y tu mewn i'r adeilad ac mae tystiolaeth anecdotaidd o arogleuon drwg yn codi o ferddwr hen bwll nofio o dan y rhandy ar hyd ochr yr eiddo. Ar y cyfan, mae'r cartref yn flêr ac mae angen ei addurno. Dywedodd un gweithiwr wrthym, *"Nothing is ever done"* a *"Leaks in toilets and showers take ages to be fixed, there is filler throughout the building and it seems it is in a constant state of disrepair."* Mae'n bosibl y bydd y pryderon hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn.

Mae'r ystafelloedd gwely yn fawr ac wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r person, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a dodrefn. Gall y bobl ddewis ble i dreulio eu hamser, boed hynny yn eu hystafelloedd eu hunain neu gydag eraill yn yr ardaloedd cymunedol, neu yn yr ardd. Gwelsom fod y bobl yn dueddol o ddod at ei gilydd yn ardal y gegin fawr ganolog.

Nid oes unrhyw rwystrau wrth yr allanfeydd tân. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002 ac mae cyfarwyddiadau clir wedi'u harddangos yn y cartref sy'n nodi beth y dylid ei wneud os bydd tân.

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn, yn ogystal â chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Cedwir cofnodion gofal yn ddiogel a dim ond gweithwyr gofal awdurdodedig all eu gweld. Caiff cofnodion personél y cyflogeion a chofnodion Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) eu storio'n ddiogel mewn swyddfa dan glo.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y darparwr weledigaeth o'r cymorth y mae am ei ddarparu, ac agwedd gadarnhaol tuag at bob person sy'n cael cymorth. Mae'r unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r cartref ac yn darparu cymorth cyson i'r rheolwr.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae uwch-aelodau o'r staff yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i lesiant y bobl yn glir, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Byddent yn siarad â'r rheolwr ond byddent yn cysylltu ag asiantaethau allanol, fel y swyddfa ddiogelu leol, pe bai angen gwneud hynny yn eu barn nhw.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i unrhyw gyflogeion newydd ddechrau gweithio: mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi - maent yn dweud bod hyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac o'r ffyrdd gorau o gefnogi'r bobl. Yn ogystal, gall pob cyflogai drafod unrhyw faterion y mae am eu codi yn ystod cyfarfodydd goruchwylio a gynhelir bob tri mis.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal drafod eu gwaith a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Caiff canfyddiadau pob archwiliad eu crynhoi yn yr adroddiadau ar ansawdd y gofal a gaiff eu llunio bob chwe mis, sy'n nodi camau gweithredu a gwelliannau arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r materion a nodwyd ynglyn â'r trefniadau rheoli meddyginiaeth a'r peryglon amgylcheddol yn dangos rhai diffygion sydd angen eu datrys yng ngoruchwyliaeth yr Unigolyn Cyfrifol o'r gwasanaeth. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Ar adeg yr arolygiad, roedd y broses o reoli meddyginiaethau yn ddi-drefn ac nid oeddent yn cael eu storio'n ddiogel. Mae pobl wedi bod yn rhannu meddyginiaeth hefyd. Mae staff heb eu hyfforddi wedi rhoi meddyginiaeth. Ymddangosodd madarch ar lawr toiled ger un o'r ystafelloedd meddyginiaeth ar un achlysur. Clywsom dystiolaeth anecdotaidd o fadarch yn tyfu mewn ystafelloedd meddyginiaeth gan achwynydd dienw. Rhaid i'r darparwr unioni'r uchod i gyd er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaeth y bobl ei reoli'n ddiogel. | Newydd |
| 44 | Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn glir o beryglon posibl. Nid oes man ysmygu diogel ar gyfer y bobl a'r staff ac yn | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | ddiweddar camodd aelod staff ar hoelen. Mae yna eitemau a deunyddiau adeiladu wedi'u gwasgaru ar draws yr ardd, tystiolaeth o fadarch ar loriau'r toiledau ac arogleuon o ferddwr yn y pwll nofio o dan yr anecs newydd i un ochr o'r prif adeilad. Mae'r adeilad, yn gyffredinol, yn flêr. Mae hyn yn golygu ei fod yn bosibl nad yw'r amgylchedd yn ddiogel ac nid yw'n galluogi'r gweithwyr gofal i gadw'r bobl y maent yn gofalu amdanynt yn ddiogel bob amser. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 66 | Ni wnaeth trefniadau goruchwylio'r Unigolyn Cyfrifol dynnu sylw at yr arferion meddyginiaeth anniogel a'r peryglon amgylcheddol: | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/08/2023